

Dyfi Valley Health Iechyd Bro Ddyfi



Telerau ac Amodau'r Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau

Mae Iechyd Bro Dyfi yn treialu Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau. Bydd y cyfnod prawf yn parhau rhwng 6 Awst 2019 hyd at 31 Hydref 2019. Bydd cleifion gwasanaeth casglu cofrestredig hefyd yn gallu gollwng eu ceisiadau ail bresgripsiwn yn y man casglu.

Man Casglu

Y man casglu fydd Canolfan Gymunedol Glantwymyn, Ffordd Cemaes, Machynlleth, SY20 8LX.

Amseroedd Casglu

Amseroedd casglu'r treial fydd:

- Dydd Mawrth 10 am-12pm
- Dydd Iau 3 pm-5pm

Meddyginiaeth dan Reolaeth

Oherwydd cyfyngiadau diogelwch a chyfreithiol ni allwch ofyn am Gyffuriau Rheoledig Atodlen 2 trwy'r gwasanaeth hwn. Os nad ydych yn siŵr os yw eich meddyginiaeth yn gymwys, siaradwch ag aelod o staff y fferyllfa fydd yn hapus i'ch helpu.

Cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau

Rhaid i gleifion sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth lenwi'r Ffurflen Gais Casglu Presgripsiynau a geir ar wefan Iechyd Bro Ddyfi (<https://dyfivalleyhealth.org/cy/lawrlwythiadau/>). Wrth wneud hynny, rydych chi'n rhoi caniatâd i fferyllfa Iechyd Bro Ddyfi:

- Baratoi eich presgripsiwn a chludo eich meddyginiaeth i'r Man Casglu.
- Rhoi eich presgripsiwn i gynrychiolydd i gasglu'ch meddyginiaeth ar eich rhan.

Dyfi Valley Health Iechyd Bro Ddyfi



Ar ôl derbyn y Ffurflen Gais Casglu Presgripsiwn wedi'i llofnodi yn nôl, bydd cyrchfan eich presgripsiwn yn cael ei newid i nodi "Man Casglu", a bydd pob ail bresgripsiwn yn cael ei baratoi'n awtomatig ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau.

Sut y Gweithredir y Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau

Pan fydd eich presgripsiwn yn barod, bydd tîm y fferyllfa yn cysylltu â chi i drefnu pa ddiwrnod casglu fyddai orau i chi. Sicrhewch eich bod wedi darparu rhif ffôn y gellir eich cysylltu arno ar y Ffurflen Gais Casglu Presgripsiwn.

Ni fydd meddyginiaeth yn cael ei gludo/gynnwys oni bai bod diwrnod casglu yn cael ei gadarnhau ganddo chi a'r fferyllfa.

Sicrhewch eich bod yn caniatáu o leiaf un wythnos waith er mwyn i'ch presgripsiwn gael ei brosesu. Felly, gofynnir i gleifion sicrhau fod ganddynt o leiaf un wythnos o feddyginiaeth mewn llaw. Mae hyn er mwyn osgoi unrhyw broblemau posibl o ran dod o hyd i feddyginiaeth neu gyfyngiadau ar argaeledd.

Pan yn archebu'ch meddyginiaeth gofynnir i chwi ganiatáu'r tri diwrnod gofynnol i baratoi eich presgripsiwn.

Pan yn casglu eich presgripsiwn, efallai y gofynnir i chi ddangos prawf trwy lun ohonoch hun (*photo-identification*). Gofynnir i chi hefyd lofnodi wrth dderbyn eich presgripsiwn.

Gwybodaeth Gyffredinol

Nid yw Iechyd Bro Dyfi yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau personol a allai ddigwydd yn y Man Casglu neu ei faes parcio.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Presgripsiynau **NI FYDD** eich presgripsiwn ar gael yn y Safle Casglu.

Ni fydd meddyginiaeth nas baratowyd yn cael ei gadw ar y safle.

Cysylltwch â thîm fferyllol Iechyd Bro Ddyfi am unrhyw gwestiynau penodol sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth.